

WILLIAMS, RICHARD ('Gwydderig'; 1842 - 1917), glöwr a bardd

Enw: Richard Williams
Ffugenw: Gwydderig
Dyddiad geni: 1842
Dyddiad marw: 1917
Rhiant: Mary Williams
Rhiant: Daniel Richard Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: glöwr a bardd
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Barddoniaeth
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 16 Chwefror 1842, mewn bwthyn o'r enw Pen-y-graig, Brynaman, mab Daniel Richard Williams, glöwr, a'i wraig Mari, merch fferm. Magwyd ef yn Bryn Hafod, Brynaman. Colodd ei dad pan nad oedd ond ieuanc. Dilynodd yntau yng nghamre ei dad a mynd i weithio mewn glofa. Dechreuodd anfon englynion i'r *Gwladgarwr* pan oedd '[Caledfryn](#)' (William Williams) yn olygydd y golofn farddol yn y papur hwnnw. Pan ddaeth dirwasgiad ym mywyd diwydiannol Brynaman a'r cylch, ymfudodd 'Gwydderig' i Pennsylvania, U.D.A., eithr dychwelodd maes o law i Frynman. Daeth yn bur adnabyddus yng nghylchoedd barddonol Cymru fel englynwr, ac fel 'bardd yr englyn' y cofia llawer amdano. Dywedir iddo ef a '[Gurnos](#)' ddechrau paratoi geiriadur cynganeddol. Er iddo ennill gwobrau mewn eisteddfodau cenedlaethol fwy nag unwaith nid ymddengys i gasgliad o'i weithiau gael ei gyhoeddi a rhaid felly chwilio amdanynt yn newyddiaduron a chylchgronau ei gyfnod; ceir rhai englynion o'i waith yn yr erthglau yn y rhifynnau o'r *Geninen* a nodir isod. Bu farw 30 Mawrth a chladdwyd ef ym mynwent capel Gibeia, Brynaman, 4 Ebrill 1917.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Y Geninen, Ebrill a Hydref 1917

Amman Valley Chronicle, 5, 12, 19, a 26 Ebrill a 3 a 10 Mai 1917

South Wales Weekly Post, 7 Ebrill 1917

Western Mail, 24 Ionawr 1936

Gwybodaeth gan John Jenkin Morgan, Glanaman

Darllen Pellach

[Adgof am Gwydderig](#), *Y Drych*, 18 Ebrill 1918

BBC cymrufyw: [Cymuned yn codi arian i adfer bedd y bardd Gwydderig](#)

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [NLW MS 22196D - Cerddi Gwydderig](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 22197D - Cerddi Gwydderig](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 22198C - Cerddi Gwydderig](#)

VIAF: [51497442](#)

Wikidata: [Q28361692](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

